# Clwstwr Bwydydd Da Cymru

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales







**Nod y Rhaglen Datblygu Busnes yw galluogi busnesau Cymreig i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymreig i dyfu trwy ddarparu cefnogaeth benodol – mae'r rhaglen Clwstwr yn enghraifft o'r gefnogaeth hon.**

## Clwstwr Bwydydd Da Cymru

Bydd Clwstwr Bwydydd Da Cymru yn creu llwyfan ar gyfer gweithgaredd ar y cyd er mwyn adnabod a datrys problemau cyffredin. Bydd yn dod ag ystod o gynhyrchwyr bwyd a diod gyda chynnyrch o ansawdd uchel, gydag uchelgais i dyfu ynghyd yn unol â phartneriaid masnachol, llywodraeth ac academaidd.

## Goresgyn rhwystrau i dwf yn eich busnes

Bydd Clwstwr Bwydydd Da Cymru yn rhoi'r wybodaeth i'ch cynorthwyo i oresgyn rhwystrau ar gyfer twf. Bydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich dealltwriaeth a rhoi cyfleoedd i chi weithio gyda busnesau eraill i oresgyn rhwystrau ar gyfer twf a gwneud y mwyaf o gyfleoedd masnachol. Mae'r rhaglen Clwstwr Bwydydd Da wedi'i anelu at fusnesau bwyd a diod bychain sy'n tyfu, sydd eisiau ehangu eu capasiti, a bydd yn cynnwys:

- Clwstwr o gwmnïau bwyd a diod da gyda phrosiectau'n ymwneud â chyfleoedd datblygu allweddol
- Rheolwr clwstwr a fydd yn gallu eich cynorthwyo i ddatblygu atebion i oresgyn rhwystrau i dyfiant
- Defnyddio dull gweithredu i ddarparu fframwaith ar gyfer arloesedd sy'n cynnwys sefydliadau academaidd, cwmnïau, llywodraeth ac ystod o randdeiliaid i feithrin gwelliannau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd busnes, gan atgyfnerthu arloesedd ac arwain at dyfiant cynaliadwy
- Darparu mentora arbenigol wedi'i deilwra i bob cwmni

Bydd gweithgareddau Clwstwr yn cynnwys:

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid
- Digwyddiadau a gweithdai
- Cydweithrediad mewn gweithgareddau masnachol
- Rhannu costau/adnoddau
- Busnesau sector cyhoeddus yn arwain yr agenda ymchwil
- Deall a chael mynediad i farchnadoedd newydd
- Mynediad at ymchwil fyd eang
- Treialu darpariaeth gwasanaeth newydd yn seiliedig ar yr anghenion busnes a nodwyd.

## Arloesi Bwyd Cymru

Mae Arloesi Bwyd Cymru'n bartner allweddol. Mae eu tîm o arbenigwyr cydnabyddedig yn y diwydiant bwyd ar gael i gynorthwyo cleientiaid i weld eu ffordd trwy amrywiaeth gymhleth o feysydd bwyd, boed yn faeth a dieteg, iechyd amgylcheddol, datblygu cynhyrchion newydd, cynllunio ffatrïoedd a gweithfanau, sicrhau ansawdd, hylendid, diogelwch bwyd ac effeithlonrwydd.

I ddarganfod mwy, cysylltwch ag Ellie Roberts:

bwydadiodcymru@menterabusnes.co.uk
01691 839938

llyw.cymru/bwydadiodcymru
@BwydaDiodCymru

© Hawlfraint y Goron 2016 / WG29250 OGL